# Cyngor Sir Caerfyrddin – Polisi Cludiant Ysgol

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio polisi cyffredinol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol/coleg. Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â gofynion statudol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Mae'r polisi hwn yn gywir ar **1af Hydref, 2016**. Mae'r polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd unrhyw newidiadau yn destun ymgynghori.

**1 Y POLISI CYFFREDINOL AR DDARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL**

Bydd disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn cwrdd â'r **HOLL** feini prawf canlynol:

- yn byw yn Sir Gaerfyrddin (h.y. Treth y Cyngor ar gyfer y cyfeiriad cartref cofrestredig yn cael ei dalu i Sir Gaerfyrddin);
- oedran ysgol gorfodol;
- yn mynychu ysgol ddynodedig yr ALl neu ysgol agosaf (Mae'r ysgol "dynodedig" ar gyfer cyfeiriad cartref cofrestredig y disgybl; mae'r ysgol "agosaf" yn cael ei fesur yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael ac yn cynnwys ysgolion mewn siroedd cyfagos os yw'n berthnasol);
- yn byw dros y 'pellter cerdded statudol' o'r ysgol. (Diffinnir y 'pellter cerdded statudol' fel a ganlyn: 2 filltir (3.218km) ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir (4.828km) ar gyfer ysgolion uwchradd, a chaiff ei fesur yn ôl y llwybr agosaf sydd ar gael oddi wrth y pwynt agosaf o ble mae cyfeiriad yr ymgeisydd yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus i'r fynedfa agosaf sydd ar gael i'r ysgol. Er y cyfeirir at y pellter fel 'pellter cerdded statudol' nid yw'n awgrymu y disgwylir i'r dysgwr gerdded o reidrwydd, ond yn hytrach y pellter y mae disgwyl i riant/gwarcheidwad wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cludo'r dysgwr, i'r ysgol ac adref, ar eu traul eu hunain.)
- ac mae'n cael ei fesur yn ôl y llwybr agosaf sydd ar gael oddi wrth y pwynt agosaf o ble cyfeiriad yr ymgeisydd yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus i'r fynedfa agosaf sydd ar gael i'r ysgol.

Mae'n **BOSIBL** y caiff cludiant ei ddarparu ar gyfer disgyblion o'r oedran ysgol gorfodol mewn amgylchiadau penodol am y rhesymau canlynol:

- Diogelwch ar y Ffyrdd, lle nad oes llwybr cerdded diogel i'r ysgol. Caiff y llwybr cerdded rhwng cyfeiriad y cartref a'r ysgol ei asesu yn unol â chanllawiau " Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)" ar Asesiad Risg Llwybrau Cerdded i'r Ysgol.
- Cyflwr meddygol. Gall trefniadau cludiant unigol gael eu gwneud lle mae cyflwr meddygol dysgwr naill ai yn ei rwystro rhag gwneud defnydd o'r cludiant arferol neu lle mae ei gyflwr yn ei rwystro rhag cerdded y 'pellter cerdded' penodedig. **Rhaid i bob cais am gymorth ar sail feddygol gael ei gefnogi gan dystysgrif feddygol neu ddatganiad wedi'i lofnodi gan ymarferydd meddygol a rhaid iddo nodi'n glir na all y dysgwr gerdded y 'pellter cerdded' penodedig i'r ysgol.** Bydd pob datganiad yn amodol ar gyfnod adolygu a bennir gan y cyflwr ac y cytunwyd gyda'r rhiant pan wnaed y dyfarniad cychwynnol.
- Dysgwyr ag anawsterau dysgu/anableddau - gweler pwynt 4 isod.

- Newid preswylfa yn ystod y blynyddoedd TGAU. Rhoddir cymorth os bydd dysgwr yn newid preswylfa yn ystod eu blynyddoedd TGAU (ar ôl yr Hydref gwyliau hanner tymor o'u blwyddyn gyntaf o astudio TGAU - blwyddyn 10) ar yr amod bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf ar oedran a phellter yn y cartref newydd, a'i fod, cyn newid ei breswylfa yn mynychu'r ysgol agosaf neu ysgol ddynodedig yr ALl.
- Credoau crefyddol. Caiff cludiant ei ddarparu fel arfer os bydd rhieni yn dewis anfon dysgwyr i ysgol wirfoddol a gynorthwyir am resymau crefyddol, ar yr amod fod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf ar oedran ac isafswm pellter teithio, ac nad ydynt yn byw fwy nag 8 milltir o'r ysgol. (Noder - Mae trefniadau ychwanegol ar gyfer Ysgol Sant Ioan Llwyd, Llanelli - gofynnwch i'r Uned Cludiant Teithwyr am wybodaeth.)

Cyfrifoldeb rhieni yw trefnu a thalu am gludo disgyblion i'r ysgol os nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim. Cynghorir rhieni i gysylltu â'r Awdurdod cyn penderfynu ar eu dewis ysgol er mwyn gweld a yw'r disgybl yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim.

Ar sail cyfeiriad cartref y disgybl yn unig y caiff ceisiadau eu hasesu (sef y cyfeiriad a gofrestrwyd gyda'r ysgol a'r ALl) a dim ond o'r cyfeiriad hwnnw y darperir cludiant fel arfer. Mae rhieni yn gyfrifol am roi gwybod i'r Uned Cludiant Teithwyr cyn newid cyfeiriad, er mwyn asesu a yw'r disgybl yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cyfeiriad newydd.

Mae'n ofynnol i awdurdodau wneud darpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn mwy nag un cyfeiriad, e.e. trefniadau rhannu gofal. Rhaid i drefniadau o'r fath fod yn barhaol a sefydlog a dim ond ar gyfer y cyfnodau hynny pan fydd dysgwr yn cael addysg a hyfforddiant (nid mewn achosion lle bydd dysgwr yn treulio penwythnos gyda rhiant mewn man gwahanol i'w gyfeiriad yn ystod yr wythnos ysgol). Gellir cael mwy o gyngor a ffurflenni cais ar gyfer cludiant o ddau gyfeiriad oddi wrth yr Uned Cludiant Teithwyr.

Caiff mwyafrif y disgyblion sydd â hawl i gael cludiant ysgol am ddim eu cludo ar gerbydau sydd wedi'u contractio'n benodol i'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gwneir defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus hefyd. Mewn rhai amgylchiadau efallai y rhoddir lwfans milltiroedd ar gyfer rhan o'r daith neu'r daith gyfan (gweler pwynt 3 isod).

Nid yw bob amser yn bosibl trefnu bod llwybrau'r cerbydau yn pasio'n agos at gartrefi'r disgyblion, ac efallai na fydd bob amser yn bosibl trefnu bod disgyblion yn mynd ar y llwybr bws agosaf at eu cyfeiriad cartref. Mae rhieni felly yn gyfrifol am wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cludo dysgwyr yn ôl ac ymlaen o'r arosfan fysiau ddynodedig. Fel arfer ni fydd hynny ymhellach na 1.5 milltir.

Darperir cludiant am ddim ar y ddealltwriaeth y bydd y disgyblion yn ymddwyn mewn modd sy'n dangos parch at gyd-ddisgyblion, eiddo a diogelwch pawb. Rhaid i bob un sy'n ymwneud â darparu a defnyddio cludiant ysgol gadw at y **'Côd Ymddygiad ar gyfer Teithio o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg'**. Gellir cael copïau o'r Côd yn www.sirgar.llyw.cymru/CludiantYsgol neu drwy wneud cais i'r Awdurdod.

**2 TREFNIADAU TEITHIO AR GYFER DYSGWYR NAD YDYNT YN CAEL CLUDIANT AM DDIM**

Mae'r Awdurdod yn annog dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol ac oddi yno. Er enghraifft, bydd yr Awdurdod yn annog dysgwyr i gerdded, beicio neu deithio ar fws yn hytrach nag mewn car preifat lle bo hynny'n bosibl. Diffinnir dulliau cynaliadwy o deithio fel rhai y bydd yr Awdurdod yn ystyried eu bod yn gwella lles corfforol y rhai sy'n eu defnyddio neu les amgylcheddol holl ardal yr Awdurdod Lleol neu ran ohoni.

Ceir gwybodaeth am fysiau lleol a gwasanaethau trên gan Traveline Cymru yn www.TravelineCymru.info neu drwy ffonio 0300 200 22 33. Mae gwybodaeth a chyngor ar gael hefyd gan y Cyngor Sir yn www.sirgar.llyw.cymru/trafnidiaeth neu drwy ffonio 01267 228 326. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn annog darpariaeth addas ar gyfer teithio i'r ysgol ac adref lle bo'n bosibl.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i ddatblygu nifer o lwybrau cludiant cyhoeddus sy'n caniatáu i ddysgwyr sy'n byw o fewn y pellter cerdded statudol i deithio drwy dalu am docyn, yn amodol ar y lle sydd ar gael. Mae'r tâl yn daladwy i'r gyrrwr ar ddechrau pob taith, ac nid oes angen gwneud cais ymlaen llaw.

Mae gan yr Awdurdod hefyd nifer fach o seddau sbâr ar gael ar rai cerbydau contract y gellir eu cynnig dros dro (ar ôl talu tâl gweinyddol) fel consesiwn i ddysgwyr sy'n byw o fewn y pellter cerdded statudol ac sydd heb fedru cael cludiant cyhoeddus, ar yr amod fod y pellter i'r ysgol yn fwy na milltir a bod y dysgwr yn mynychu ysgol ddynodedig yr AALl neu'r ysgol agosaf.

Bydd yr Awdurdod yn penderfynu faint o seddau gwag i'w cynnig ac yn y lle cyntaf bydd disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael blaenoriaeth. Bydd unrhyw seddau sydd dros ben wedyn ar gael i ddisgyblion eraill. Cynigir pob sedd yn ôl oed gyda'r plant ieuengaf yn cael y flaenoriaeth.

Bydd yr Awdurdod yn tynnu unrhyw gonsesiwn yn ôl os bydd angen drwy roi saith niwrnod o rybudd ysgrifenedig.

Rhaid gwneud cais am seddau gwag erbyn y dyddiad penodedig (fel arfer ddiwedd mis medi) a phenderfynir ar y ceisiadau yn ystod mis Hydref bob blwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y polisi hwn ar gael gan Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, rhif ffôn 01267 228 313.

**3 TALU TREULIAU TEITHIO**

Mewn rhai achosion mae'n bosibl nad oes cludiant cyhoeddus addas neu gerbydau contract ar gael ar gyfer y daith gyfan neu ran ohoni. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr Awdurdod yn cynnig lwfans milltiroedd sefydlog fel y gall rhiant neu warcheidwad gludo'r disgybl i'r ysgol (neu i fan priodol i gwrdd â cherbyd addas os yw'r pellter hwnnw'n fwy na 1.5 milltir). Dim ond os yw'r dysgwr yn gymwys i gael cludiant am ddim yn unol â'r polisi hwn, ac na all yr Awdurdod ddarparu cludiant o'r fath, y telir treuliau teithio.

**4 DYSGWYR AG ANAWSTERAU DYSGU/ANABLEDDAU**

Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â gofynion Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod neu lle mae disgybl/dysgwr yn destun y weithdrefn asesu statudol lle mae'r ALl o'r farn fod ei anawsterau dysgu yn golygu fod cludiant yn 'angenrheidiol'. Bydd asesiadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y math o gludiant a ddarperir ei benderfynu drwy Asesiad Risg.

**5 YMHOLIADAU A CWYNION**

Mae mwy o wybodaeth am y polisi hwn ar gael gan Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, rhif ffôn 01267 228 313.

Dylai cwynion gweithredol mewn perthynas â'r gwasanaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol gael eu gwneud i Dîm Rhwydwaith yr Uned Cludiant Teithwyr ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, rhif ffôn 01267 228 326.

Caiff rhieni sydd wedi cyflwyno cais am gludiant am ddim ac wedi cael eu gwrthod ofyn am adolygiad o'r penderfyniad, a byddant yn cael gwybod am y broses adolygu gyda'r hysbysiad ysgrifenedig yn gwrthod y cais.

**6 SUT I WNEUD CAIS AM GLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL**

Rhaid i'r holl ddysgwyr sy'n gymwys i gael cludiant am ddim wneud cais ysgrifenedig i'r Awdurdod gan ddefnyddio'r ffurflen gais a gyhoeddwyd. Gall Ceisiadau cael eu gwneud ar-lein ar www.sirgar.llyw.cymru/CludiantYsgol

Rhaid gwneud ceisiadau am gludiant o leiaf 15 diwrnod cyn y dyddiad cyntaf y mae angen y cludiant, neu erbyn 1af Mehefin lle mae angen y cludiant ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod yn anfon Tocyn Teithio atoch. Gyda'r Tocyn Teithio rhoddir manylion am y llwybr bws i'w ddefnyddio, ynghyd â chopi o'r 'Côd Ymddygiad' y mae'n rhaid cadw ato bob amser. Bydd y Tocyn Teithio fel arfer yn cael ei gyhoeddi cyn pen 15 diwrnod ar ôl gwneud cais, er y bydd yr amserlen hon yn cael ei hymestyn yn achos ceisiadau a wnaed rhwng mis Mehefin a mis Medi, ac ni fyddant yn gymwys i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd (gweler isod).

Rhaid i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd gyflwyno ffurflen gais trafnidiaeth briodol erbyn y 16eg o fis Rhagfyr. Bydd y ceisiadau'n cael eu gwirio i gadarnhau fod y dysgwr yn mynychu'r ysgol agosaf neu ysgol benodedig y dalgylch. Os caiff hynny ei gadarnhau caiff y cais ei asesu wedyn gan yr Uned Cludiant Teithwyr i benderfynu ar yr hawl i gludiant am ddim. Bydd yr Uned Cludiant Teithwyr yn cadarnhau neu'n gwrthod y cais am gludiant am ddim erbyn mis Mehefin, a chaiff Tocynnau Teithio eu hanfon at ddysgwyr cymwys yn ystod mis Awst.

Os collir y Tocyn Teithio neu os caiff ei ddifrodi rhaid cysylltu â'r Awdurdod ar 01267 234 567 ar unwaith er mwyn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer teithio (lle bo modd) ac i archebu tocyn newydd. Codir tâl am Docynnau Teithio newydd.

## 7 AMODAU DEFNYDDIO TOCYNNAU TEITHIO

Rhaid dangos y Tocyn Teithio i yrrwr y bws ar ddechrau pob siwrnai. Mae'n bosibl y gwrthodir cludo'r disgybl oni ddangosir y tocyn. Nid oes modd trosglwyddo'r Tocyn Teithio, oherwydd nid yw'n ddilys ond ar gyfer y person a enwir ar y tocyn a'r siwrnai a ddangosir arno. Mae camddefnyddio Tocyn Deithio neu ei ddefnyddio'n dwyllodrus yn cael ei drin yn ddifrifol, a gallai olygu fod y dysgwr yn cael ei ddisgyblu o dan weithdrefn ddisgyblu yr ysgol/coleg yn ogystal â cholli ei hawl i deithio.

Os bydd unrhyw fanylion yn newid ers y cais gwreiddiol, rhaid cysylltu ag Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ar unwaith, er mwyn iddynt newid y manylion ac ailasesu a yw'r dysgwr bellach yn gymwys i gael cludiant. Os oes angen Tocyn Teithio newydd oherwydd y newid, rhaid dychwelyd y tocyn presennol gyda'r cais.

Os nad ydych angen y Tocyn Teithio mwyach, anfonwch ef yn ôl i Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod oherwydd gall fod eraill yn awyddus i ddefnyddio'r sedd.

## 8 CLUDIANT I DDYSGWYR DROS OEDRAN YSGOL ORFODOL

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod bolisi dewisol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr dros oedran ysgol orfodol ac o dan 19 oed (neu'r rhai sydd wedi cyrraedd 19 oed ond dechreuodd ar gwrs pan o dan 19 oed ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw) os ydynt yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol ddynodedig yr ALl, neu y campws coleg agosaf, ac yn byw dros y pellter cerdded statudol o 3 milltir.

Noder na fydd y ddarpariaeth preswyliad deuol yn cael ei wneud ar gyfer dysgwyr dros oedran ysgol orfodol oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru gymorth ariannol ar gael i dalu / gyfrannu at gostau cludiant o'r rhai mewn addysg ôl-16. Cyflwynwyd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) fel cymhelliad ariannol ar gyfer pobl ifanc o gartrefi incwm isel i aros mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser y tu hwnt i i gyfnod addysg orfodol. Mae ar gael i ddysgwyr sy'n mynychu ysgol neu goleg. Mae Grant Dysgu'r Cynulliad (ALG) ar gael i ddysgwyr 19 oed neu'n hŷn sydd mewn Addysg Bellach. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cefnogaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n wynebu caledi drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF) a ddosberthir i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.